Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Ysgol Gynradd Llanilar
Llanilar
Aberystwyth

Rhif yr Ysgol: 667-2311

Dyddiad yr Arolygiad: 4-6 Hydref 2004

gan

Mr D Gwynfor Evans
W005/15682

Dyddiad: 6 Rhagfyr 2004

Dan rif contract Estyn: T/32/04P

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r Adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Llanilar fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Llanilar rhwng y 4-6 Hydref 2004. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o dri o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr D Gwynfor Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion eithriadol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfarthrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 2

Argymhellion 5

Safonau 6

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 6

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 8

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 8

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 9

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr? 10

Arweinyddiaeth a rheolaeth 11

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 11

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 12

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 13

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 14

Plant dan bump oed 14
Cymraeg 15
Saesneg 15
Mathemateg 16
Gwyddoniaeth 17
Dylunio a thechnoleg 17
Technoleg gwybodaeth 18
Hanes 18
Daearyddiaeth 19
Celf 20
Cerddoriaeth 20
Addysg gorfforol 21
Addysg grefyddol 21

Atodiadau 23

A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 23
B Data a dangosyddion yr ysgol 23
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2003 24
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad 25
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 26

Cyd-destun

Natur y darparwr

Lleolir Ysgol Gynradd Llanilar yn y pentref ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal amaethyddol o amgylch. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Nid oes gan un disgybl yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sydd yn sylweddol is na chyfartaledd yr awdurdod addysg lleol (AALl) (11 y cant) a chyfartaledd Cymru (19 y cant).

Ar hyn o bryd, mae 79 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng pedair ac 11 oed. Adeg yr arolwg diwethaf yn 1999, 59 oedd nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae bron pob plentyn wedi derbyn addysg gyn-ysgol. Mae gan ryw 25 y cant anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys dau sydd â datganiad o AAA.

Cymraeg yw prif iaith yr ysgol ac er mai dim ond 22 y cant o'r disgyblion ddaw o gartrefi Cymraeg, dywed yr ysgol fod 95 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Caiff disgyblion sydd yn cyrraedd yr ysgol heb wybodaeth o'r Gymraeg gyfle i fynychu canolfan iaith er mwyn ennill meistrolaeth o'r iaith yn gyflym.

Mae'r ysgol yn anelu at "ddarparu cymuned gefnogol o fewn amgylchedd hapus, ble y caiff pob un ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei botensial". Cred hefyd fod "y pwyslais a rydd ar ansawdd a safonau uchel, mewn gwaith ac ymddygiad, yn darparu eu plant gydag agwedd bositif tuag at fywyd a sylfaen gadarn y gellir seilio eu dysg arni yn y dyfodol".

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY) ar gyfer 2004-2005, rhestrir y blaenoriaethau canlynol:

- Creu safwe i'r ysgol;
- Datblygu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth;
- Datblygu gweithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion;
- Edrych ar gyflwr adeilad yr ysgol;
- Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump;
- Asesu'r pynciau sylfaen; ac
- Ennill cymhwyster 'Buddsoddwr mewn Pobl'.

Crynodeb

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol		Gradd yr arolygiad
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	3
3	Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7	Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

Pynciau a Meysydd Dysgu y Blynyddoedd Cynnar

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2
Datblygiad personol a chymdeithasol	2
Datblygiad mathemategol	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad creadigol	2
Datblygiad corfforol	2

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Saesneg	Amherthnasol	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 3	Gradd 3
Daearyddiaeth	Gradd 3	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

Cyflawna'r disgyblion o bob oed radd 2 mewn gwrando a darllen. Gwrandawant yn gyson ac ymatebant yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau. Darllenant yn gywir

gyda mynegiant. Mae safonau siarad ac ysgrifennu'n dda yn Saesneg yn CA2 ac yn radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol yn y Gymraeg.

Cyflawna'r dysgwyr radd 2 mewn rhifedd. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau rhifedd i fesur a chyfrif yn gywir wrth wneud gwaith mewn amrywiaeth o bynciau.

Er bod y disgyblion yn gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu, amrywiol yw'r safonau ac anwastad yw'r defnydd a wneir o adnoddau TGCh ar draws y dosbarthiadau. Gradd 3 yw'r safonau.

Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion wedi gwella ers yr arolwg diwethaf. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy hyderus i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith ac mae lleiafrif yn arddangos medrau ieithyddol deuol effeithiol. Yn gyffredinol, mae sgiliau cyfathrebu'r disgyblion yn fwy cadarn yn y Saesneg nag yn y Gymraeg a gradd 3 yw safonau dwyieithrwydd yn yr ysgol.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 (CA1) yn y dangosydd pwnc craidd yn is na'r cyfartaledd, ond yn Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) mae lawer yn uwch na'r cyfartaledd. Nid oes gwahaniaethau mawr ym mherfformiad bechgyn a merched yn y pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar y cyfan, gweithiant yn ddiwyd ar eu tasgau ac mae ganddynt falchder yn y modd y cyflwynant eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain drwy weithio'n annibynnol a dod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau.

Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda, yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Mae'r disgyblion yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'w gilydd, i'r staff ac i ymwelwyr â'r ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r staff. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddisgwyliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	73%	27%	0%	0%

Mae canran y gwersi da yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn welliant ers yr arolygiad diwethaf.

Lle mae'r addysgu'n gyson yn cyrraedd gradd 2, mae'r cynllunio'n dda ac amcanion dysgu clir yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae'r holi da yn annog disgyblion i feddwl ac ystyried cyn cynnig atebion. Lle mae diffygion, mae'r cyflwyniadau yn rhy faith ac ni roddir digon o gyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol a dod i gasgliadau a chanfyddiadau drwy waith ymchwil personol.

Mae cynllunio'r athrawon yn y tymor canolig a'r tymor byr yn fanwl ac yn gynhwysfawr. Ceir cynllunio priodol ar gyfer y plant dan bump ar draws y chwe maes dysgu. Gradd 3 yw datblygiad medrau allweddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm gan gynnwys eu medrau dwyieithog. Nid oes polisi ysgol-gyfan i sicrhau ymagwedd gyson ac nid yw'r medrau'n cael eu cynnwys yng nghynllunio tymor byr yr athrawon.

Yn gyffredinol, gwneir defnydd priodol o asesu i hysbysu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Yn y pynciau craidd, defnyddir y wybodaeth i hyrwyddo safonau uwch ond nid oes cynllun cyffelyb ar gyfer asesu cynnydd a chyflawniad disgyblion yn y pynciau sylfaen. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y CDY. Dechreuwyd ar y gwaith o lunio portffolios pynciol. Maent yn cynnwys enghreifftiau o waith wedi'i lefelu ond prin yw'r enghreifftiau o sylwadau dadansoddol ac arweiniad ar y ffordd ymlaen.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn dda. Mae ansawdd da y polisïau a chynlluniau gwaith i bob pwnc yn y tymor hir, canolig, a byr yn sicrhau cydbwysedd, hyblygrwydd a dilyniant ar draws y cwricwlwm.

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion. Mae cydaddoli yn cyfrannu'n dda i ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Mae profiadau'r dysgwyr yn cael eu hehangu a'u cyfoethogi trwy gyfrwng ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio a thu allan i oriau arferol, ac oddi ar y safle.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn dda. Mae'r disgyblion sydd angen cymorth yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r athrawon a'r staff cynhaliaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau cynhaliaeth barhaus. Sicrheir bod y disgyblion sydd ag AAA yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

Mae'r cysylltiadau â rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn effeithiol. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r partneriaethau â diwydiant lleol wedi galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth well o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae'r ysgol wedi derbyn y fflag werdd fel Ysgol Eco ac mae gweithredu mewn ffordd gynaliadwy yn dod yn naturiol i'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisïau ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant ac fe'u gweithredir yn effeithiol. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd clir sydd yn hysbys i'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r pennaeth wedi cyflwyno nifer o flaengareddau pwysig ers ei benodiad yn Ebrill 2002; mae'n cynnig arweiniad da iawn i'r ysgol.

Mae arferion yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal a cheir perthynas dda ac awyrgylch o gydweithio hapus ar draws yr ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol ac mae'r aelodau'n ymroddedig i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i bob disgybl. Cyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol yn arbennig mewn materion ariannol ac adeiladol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gryno ac yn glir. Mae'n nodi cryfderau a meysydd lle mae angen gwelliannau. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr wedi cychwyn y broses o fonitro ansawdd y ddarpariaeth a pharatoi adroddiadau i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr. Nid yw'r sylwadau yn manylu'n ddigonol ar yr addysgu a safonau cyflawniad y disgyblion nac yn gosod targedau digon penodol ar gyfer gwelliant pellach.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ym mhob un o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Mae'r ddarpariaeth gyffredinol o ran staffio, adeiladau ac adnoddau yn dda. Mae'r disgyblion yn cael eu cynnal gan staff cymwys ac ymroddedig sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Ers yr arolwg diwethaf, sicrhawyd nifer o welliannau i adeiladau'r ysgol ac erbyn hyn, mae adeiladau a thir yr ysgol mewn cyflwr da.

Rheolir holl adnoddau'r ysgol yn effeithlon. Mae'r penderfyniadau gwario'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1. roi sylw i'r diffygion a nodir yn y pynciau a'r meysydd dysgu yn arbennig lle nodir mai gradd 3 yw safonau cyflawniad y disgyblion;

A2. ddatblygu ymhellach system asesu'r ysgol drwy :
- gael dulliau effeithiol o asesu cyflawniad y disgyblion yn y pynciau sylfaen,
- hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;

A3. gynllunio'n fwy manwl ar gyfer hyrwyddo medrau allweddol y dysgwyr gan gynnwys eu medrau dwyieithog;

A4. gryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy fanylu ar ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad y disgyblion ar draws y pynciau.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

1. Ar y cyfan, nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn gradd 3 a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
2. Yn ystod yr arolygiad, roedd safonau cyflawniad cyffredinol y disgyblion yn y gwersi yr arsylwyd arnynt fel a ganlyn:

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Safonau cyflawniad disgyblion	0%	73%	27%	0%	0%

3. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion, a gwna'r plant gynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol. Dyma yw safonau plant dan bump oed:

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	Gradd 2
Datblygiad personol a chymdeithasol	Gradd 2
Datblygiad mathemategol	Gradd 2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	Gradd 2
Datblygiad creadigol	Gradd 2
Datblygiad corfforol	Gradd 2

4. Yn CA1 a CA2, mae'r safonau cyflawniad fel a ganlyn:

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Saesneg	Amherthnasol	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 3	Gradd 3
Daearyddiaeth	Gradd 3	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

5. Mae'r disgyblion sydd ag AAA yn gwneud cynnydd da ac, yn gyffredinol, cyflawnant y targedau a osodir iddynt.
6. Cyflawna'r disgyblion o bob oed radd 2 mewn gwrando a darllen. Gwrandawant yn gyson ac ymatebant yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau. Darllenant yn gywir gyda mynegiant. Gradd 2 yw'r safonau mewn siarad ac ysgrifennu yn Saesneg yn CA2, a gradd 3 yn y ddau gyfnod allweddol yn y Gymraeg.
7. Cyflawna'r dysgwyr radd 2 mewn rhifedd. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau rhifedd i fesur a chyfrif yn gywir wrth wneud gwaith mewn amrywiaeth o bynciau.

8. Er bod y disgyblion yn gwneud defnydd cynyddol o TGCh i gefnogi eu dysgu, amrywiol yw'r safonau ac anwastad yw'r defnydd a wneir o adnoddau TGCh ar draws y dosbarthiadau. Gradd 3 yw'r safonau.

9. Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion wedi gwella ers yr arolwg diwethaf. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy hyderus i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith ac mae lleiafrif yn arddangos medrau ieithyddol deuol effeithiol. Yn gyffredinol, mae sgiliau cyfathrebu'r disgyblion yn fwy cadarn yn y Saesneg nag yn y Gymraeg a gradd 3 yw safonau dwyieithrwydd yn yr ysgol.

10. Yn 2004 ar ddiwedd CA1, roedd perfformiad y disgyblion ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn ôl asesiad athrawon yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Nid oes gwahaniaethau mawr rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

11. Yn CA2 yn 2004, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd ofynion dangosydd pynciau craidd lawer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y canlyniadau, yn ôl tystiolaeth meincnodi, yn uwch na'r canolrif mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac ychydig yn is na'r canolrif yn y Gymraeg o'u cymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Nid oes gwahaniaethau mawr rhwng perfformiad bechgyn a merched, er bod y bechgyn yn tueddu i wneud yn well na'r merched ym mhob un o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg.

12. Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar y cyfan, gweithiant yn ddiwyd ar eu tasgau ac mae ganddynt falchder yn y modd y cyflwynant eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain drwy weithio'n annibynnol a dod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau.

13. At ei gilydd, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth newydd. Adlewyrchir hyn yn y cynnydd a wna'r rheiny sy'n hwyrddyfodiaid i'r ysgol ac y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.

14. Mewn rhai dosbarthiadau, mae disgyblion wedi dechrau adnabod rhai agweddau yn eu gwaith y mae angen iddynt ei wneud i wella ond yn gyffredinol nid oes gan y disgyblion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigonol o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn mae'n rhaid iddynt wneud i gyflawnai safonau uwch.

15. Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda, yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Sylfeinir bywyd yr ysgol ar barch, ymddiriedaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion eraill ac mae'r disgyblion yn dilyn esiampl yr athrawon yn hyn o beth. Maent yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'w gilydd, i'r staff ac ymwelwyr â'r ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r staff. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddisgwyliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt; cânt eu gwobrwyo am ymddygiad da mewn gwasanaeth arbennig ar ddydd Gwener. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i wahardd unrhyw ddisgybl o'r ysgol ac ni welwyd achosion o ymddygiad ymosodol na bwlio yn ystod yr arolwg; mae gweithdrefnau priodol ar gyfer ymdrin ag unrhyw achos all godi.

16. Dros y tri thymor diwethaf, cyfartaledd presenoldeb oedd 94.7 y cant heb un achos o absenoldeb anawdurdodedig. Mae presenoldeb y bechgyn yn gyson yn well na phresenoldeb y merched. Mae salwch, ynghyd â rhieni'n tynnu eu plant allan o'r ysgol i fynd ar wyliau, yn cyfrannu at y gostyngiad yn y cyfartaledd yn nhymor yr haf. Mae'r rhieni yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ynglŷn â phresenoldeb a

phrydlondeb ac yn hysbysu'r ysgol mewn unrhyw achos o absenoldeb. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae'r diwrnod ysgol a'r gwersi yn dechrau ar amser. Cedwir y cofrestri'n daclus ac fe'u monitrir yn gyson gan y pennaeth; maent yn cwrdd â gofynion statudol cylchlythyr 3/99.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

17. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.
18. Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	73%	27%	0%	0%

19. Mae mwyafrif y gwersi ar draws yr ysgol yn cael eu cynllunio'n dda ac amcanion dysgu clir yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae'r holi da yn annog disgyblion i feddwl ac ystyried cyn cynnig atebion.
20. Llwydda'r athrawon i greu awyrgylch ddysgu bwrpasol ac mae perthnasedd o fewn y dosbarthiadau yn dda iawn.
21. Lle mae diffygion, mae'r cyflwyniadau yn rhy faith ac ni roddir digon o gyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol a dod i gasgliadau a chanfyddiadau drwy waith ymchwil personol.
22. Defnyddia'r athrawon ystod o dechnegau i ymestyn medrau dwyieithog y disgyblion, yn arbennig sgiliau llafar yn y blynyddoedd cynnar. Yn CA1 a CA2, rhoddwyd sylw da i ddatblygu sgiliau gwrando a darllen y disgyblion ond, yn gyffredinol, nid yw strwythur y gwersi yn rhoi digon o sylw i feithrin llythrennedd deuol yn arbennig y medrau siarad ac ysgrifennu.
23. Mae cynllunio'r athrawon yn y tymor canolig a'r tymor byr yn fanwl ac yn gynhwysfawr. Ceir cynllunio priodol ar gyfer y plant dan bump ar draws y chwe maes dysgu. Rhoddir amcanion eglur i'r addysgu a'r dysgu. Ceir cynlluniau gwaith i bob pwnc ac adolygir y cynlluniau o flwyddyn i flwyddyn.
24. Mae gan arweinwyr pwnc gyfrifoldeb llawn am ddatblygiadau yn eu maes. At ei gilydd, mae eu gwybodaeth bynciol yn dda. Defnyddiant ystod briodol o strategaethau addysgu ac adnoddau, sy'n cynnal diddordeb y disgyblion ac yn sicrhau bod cyfle cyfartal ar gael i bawb.
25. Yn gyffredinol, boddhaol yw'r defnydd a wneir o asesu i hysbysu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith.
26. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac asesu disgyblion ag AAA yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
27. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio mewn modd cydwybodol, ac yn yr arfer gorau, ceir sylwadau pwrpasol ar lyfrau'r disgyblion sy'n eu cymell i wella'u gwaith.
28. Mae arfer dda o fewn rhai dosbarthiadau, o gael disgyblion i hunan arfarnu a gosod targedau gwella. Serch hynny, anwastad yw'r arfer yma ar draws yr ysgol.

29. Yn ddiweddar, mabwysiadodd yr ysgol system newydd gynhwysfawr ar gyfer asesu cynnydd disgyblion dros gyfnod o amser. Ceir llyfrau cofnodi asesiadau sy'n hwyluso'r broses drosglwyddo. Asesir cynnydd a chyflawniad y disgyblion yn y pynciau craidd yn dymhorol a'r pynciau sylfaen yn flynyddol. Cynhwysa'r broses hon ddefnyddio canlyniadau o ystod o brofion cenedlaethol a rhai wedi eu safoni. Yn y pynciau craidd, defnyddir y wybodaeth i hyrwyddo safonau uwch ond nid oes cynllun cyffelyb ar gyfer asesu cynnydd a chyflawniad yn y pynciau sylfaen. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y CDY.

30. Bydd athrawon yn rhannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion cyn iddynt symud i'r dosbarth nesaf. Mae'r disgyblion yn cael eu grwpio i'r haen uchaf, canol ac isaf i hwyluso'r ffordd ymlaen. Mae gan ddisgyblion sydd ar y gofrestr AAA eu cofnodion manwl eu hunain.

31. Dechreuwyd ar y gwaith o lunio portffolios pynciol. Maent yn cynnwys enghreifftiau o waith wedi'i lefelu ond prin yw'r enghreifftiau o sylwadau dadansoddol ac arweiniad ar y ffordd ymlaen.

32. Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi crynodeb da o gynnydd a chyflawniadau'r disgyblion; maent yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

33. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu'n cyd-fynd â barn yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu.

34. Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn dda. Mae ansawdd da y polisïau a chynlluniau gwaith i bob pwnc yn y tymor hir, canolig, a byr yn sicrhau cydbwysedd, hyblygrwydd a dilyniant ar draws y cwricwlwm.

35. Mae anghenion ychwanegol yr holl ddisgyblion yn cael eu cynnal yn effeithiol. Mae'r cymorth a roddir gan gynorthwywyr i ddisgyblion ag anghenion arbennig ac eraill sydd angen cymorth ychwanegol yn y dosbarth ynghyd â'r cymorth yn y sesiynau tynnu o wersi, yn nodweddion cryf yn narpariaeth yr ysgol. O ganlyniad gwna'r rhan fwyaf o'r disgyblion gynnydd da yn eu dysgu.

36. At ei gilydd, gradd 3 yw datblygiad y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm. Nid oes polisi ysgol-gyfan i sicrhau ymagwedd gyson ac nid yw'r medrau yn cael eu cynnwys yng nghynllunio tymor byr yr athrawon.

37. Mae gan yr ysgol bolisi clir ar gyfle cyfartal. Mae profiadau'r dysgwyr yn cael eu hehangu a'u cyfoethogi trwy gyfrwng ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio a thu allan i oriau arferol ac oddi ar y safle. Derbynia pob disgybl yr un cyfleoedd beth bynnag eu cefndir, rhyw neu anabledd.

38. Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael ei hyrwyddo'n dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion. Datblygir agweddau personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau fel y Cyngor Ysgol a Chylch Cyfrinach. O ganlyniad, mae gan y

disgyblion synnwyr clir o berchnogaeth a chyfrifoldeb tuag at ei gilydd a'u hamgylchedd. Mae datblygiad moesol ac ysbrydol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo yn y gwersi, y cydaddoli a bywyd cyffredinol yr ysgol. Yn y cydaddoli, cynigir cyfleoedd priodol ar gyfer myfyrio tawel ac yn y gwersi addysg grefyddol, ceir cip olwg ar rai o brif grefyddau eraill y byd.

39. Mae gan yr ysgol berthynas dda â'r rhieni. Cefnogant yr ysgol yn frwd gyda mwyafrif llethol o'r holiaduron a ddychwelwyd yn datgan eu bod o leiaf yn fodlon â safonau gwaith eu plant a'r gwerthoedd a hyrwyddir gan yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn codi symiau da o arian i gefnogi gwaith yr ysgol. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar y wybodaeth a dderbyniant oddi wrth yr ysgol trwy lythyr, cyfarfodydd ac adroddiadau; mae Llawlyfr yr Ysgol yn gynhwysfawr ac yn cwrdd â'r gofynion statudol. Mae rhai o'r rhieni yn rhedeg clybiau pêl-droed a hoci ar gyfer y disgyblion ar gaeau'r ysgol ar ddydd Sadwrn. Arwyddwyd y Cytundeb Cartref/Ysgol gan bob rhiant.

40. Ceir cysylltiadau clòs rhwng yr ysgol a'r gymuned y mae'n galon iddi. Gwahoddir y gymuned i ymuno yn nathliadau Gŵyl Dewi, Diolchgarwch a'r Nadolig ac mae cysylltiadau da iawn â henoed y pentref. Mae'r disgyblion yn codi arian tuag at elusennau megis yr NSPCC, Apêl y Pabi a'r henoed yn flynyddol. Mae amrywiaeth o bobl o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion am eu gwaith a'u profiadau, mae hyn yn cyfoethogi eu haddysg. Caiff y disgyblion brofiadau gwerthfawr wrth ymweld â Kingswood, Llain a Chastell Henllys a chymryd rhan yng Ngŵyl Cefn Gwlad Pumlumon.

41. Mae cysylltiadau cryf gyda'r ysgol feithrin, sy'n rhannu'r un safle a'r ysgol, a gyda'r ysgolion uwchradd lleol. Mae'r disgyblion yn cyfathrebu trwy lythyr ac e-bost gydag ysgolion cynradd eraill yng Nghymru. Mae gan yr ysgol gytundeb i dderbyn darpar fyfyrwyr o Brifysgol Aberystwyth a gweinyddesau dan hyfforddiant o Goleg Ceredigion ar brofiad gwaith.

42. Mae'r partneriaethau â diwydiant lleol wedi galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth well o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae'r ysgol wedi derbyn y fflag werdd fel Ysgol Eco ac mae gweithredu mewn ffordd gynaliadwy yn dod yn naturiol i'r disgyblion. Mae disgyblion B5 a B6 yn aelodau o'r Pwyllgor Eco ac yn rhannu'r wybodaeth gyda gweddill y disgyblion. Maent oll yn ymwybodol o'r angen i ail gylchu ac mae biniau pwrpasol ym mhob dosbarth; mae'r disgyblion hefyd yn gwneud eu compost eu hunain ac wedi cynllunio ac yn gofalu am yr ardd a grëwyd ar dir yr ysgol gyda chymorth Cwmni Coedwigaeth Nanteos, ac yn gwneud bocsys adar yn y Clwb Creu. Mae rhai athrawon wedi derbyn lleoliadau byr yn y gweithle drwy Gyrfâu Cymru ac mae un o'r lleoliadau wedi arwain at gysylltiadau da gyda Powergen.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

43. Mae'r tîm arolygu yn anghytuno â'r farn gradd 3 a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

44. Mae'r ysgol yn llwyddo yn ei nod o "ddarparu cymuned gefnogol o fewn amgylchedd hapus, ble y caiff pob un ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei botensial". Teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol.

45. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant sydd ag AAA yn dda. Mae'r disgyblion sydd angen cymorth yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r athrawon a'r staff cynhaliaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau cynhaliaeth barhaus. Sicrheir bod y disgyblion sydd ag AAA yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.

46. Mae'r rhieni yn gweithio'n glòs gyda'r athrawon i fodloni anghenion eu plentyn a chyda monitro cynnydd eu plentyn hefyd. Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn ofalus, a bydd disgyblion yn cael cymorth ychwanegol yn ôl eu hanghenion.

47. Darparir cefnogaeth ychwanegol i gwrdd ag anghenion unigolion gan gynnwys anghenion dysgwyr sydd ag anabledd corfforol ac anabledd dysgu. Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Er enghraifft, mae bechgyn a merched yn cael cyfleoedd cyfartal i ehangu eu profiadau mewn gweithgareddau ar ôl ysgol, megis chwarae hoci.

48. Mae'r rhaglenni sefydlu ar gyfer plant y dosbarth derbyn yn dda iawn. Mae rhieni yn medru rhannu profiadau cyntaf eu plant yn yr ysgol a derbyniant ganllawiau ar sut y gallant helpu eu plant gyda'r gwaith cartref. Ceir gweithdrefnau da i alluogi disgyblion i ymgartrefu'n hwylus yn yr ysgol. Mae llawer o fewnfudo i'r ardal ac mae'r disgyblion a ddaeth i'r ysgol yn ddiweddarach wedi ymgartrefu'n dda gyda'u cyfoedion o fewn yr ysgol.

49. Mae'r staff yn ymorol o'r disgyblion yn eu gofal ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt. Mae gan yr ysgol bolisïau ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant ac fe'u gweithredir yn effeithiol i hybu datblygiad iachus y disgyblion drwy themâu. Y pennaeth yw'r person penodedig ar gyfer amddiffyn plant. Daw'r nyrs i'r ysgol i siarad gyda disgyblion B6 ynglŷn ag addysg rhyw a chyffuriau. Mae gweithdrefnau mewn lle er mwyn gofalu am ddisgyblion sydd yn anhwylus neu wedi cael damwain, hefyd i gofnodi damweiniau a hysbysu'r rhieni. Mae gan ddau aelod o'r staff dystysgrifau Cymorth Cyntaf. Gwneir asesiadau risg reolaidd gan y pennaeth gyda chymorth un o'r llywodraethwyr. Caiff prydlondeb a phresenoldeb eu monitro'n dda a gweithredir yn gynnar ac yn addas yn ôl y gofyn.

50. Rhoddir cyfle cyfartal i ddisgyblion o bob cefndir a rhyw. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cydberthynas dda rhwng hiliau ac yn parchu amrywiaeth ar draws pob maes gweithgarwch.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

51. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

52. Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd clir sydd yn hysbys i'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r pennaeth wedi cyflwyno nifer o flaengareddau

pwysig ers ei benodiad yn Ebrill 2002; mae'n cynnig arweiniad da iawn i'r ysgol. Yn ddiweddar, penodwyd dirprwy bennaeth i'r ysgol ac mae eisoes wedi ymgymryd yn effeithiol â dyletswyddau ysgol-gyfan megis datblygu'r Cyngor Ysgol. Mae arferion yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal a cheir perthynas hapus ac awyrgylch o gydweithio hapus ar draws yr ysgol.

53. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae llwyddiant yr ysgol yn ennill medal aur Ysgol Eco yn dyst o'i hymroddiad i ddatblygiad cynaliadwy. Mae sefydlu Cyngor Ysgol yn rhoi cyfle i ddisgyblion i gyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac yn cyfrannu at eu dealltwriaeth am ddinasyddiaeth.

54. Mae gan yr ysgol ddull priodol o osod targedau ysgol-gyfan. Mae blaenoriaethau realistig hefyd wedi cael eu gosod yn y CDY. Lluniwyd ystod eang o bolisïau ysgol-gyfan a chânt eu gweithredu'n gyson. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar staff a disgyblion.

55. Mae cynllun rheoli perfformiad yr ysgol yn gweithio'n effeithiol. Mae gofynion hyfforddi staff yn cael eu harchwilio'n gyson ac mae hyn yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus ac yn cyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

56. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol ac mae'r aelodau'n ymroddedig i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i bob disgybl. Cyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol yn arbennig mewn materion ariannol ac adeiladau. Maent wedi dechrau'r broses o fonitro ansawdd y ddarpariaeth drwy ymweliadau cyson a chysylltiad aelodau unigol â chydlynwyr yn yr ysgol. Nid yw'r broses wedi datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd i gael darlun llawnach o'r safonau mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

57. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

58. Mae ymrwymiad clir ymysg y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr i wella ansawdd y ddarpariaeth addysgol i bob disgybl ac i wella safonau.

59. Cynlluniwyd rhaglen hunanarfarnu sy'n nodi'r agweddau a'r pynciau a'r meysydd dysgu y bwriedir rhoi sylw iddynt dros gyfnod o dair blynedd. Er mai yn gymharol ddiweddar yr aethpwyd ati i weithredu'r rhaglen, mae'r canfyddiadau eisoes yn dylanwadu ar y blaenoriaethau a osodir yn y CDY. Mae'r llywodraethwyr wedi dechrau cyfrannu at y broses o fonitro gwaith yr ysgol. Mae'r sylw a roddwyd yn benodol i'r Gymraeg, mathemateg a TGCh wedi arwain at welliant mesuradwy mewn safonau.

60. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gryno ac yn glir. Mae'n nodi cryfderau a meysydd lle mae angen gwelliannau. Ar y cyfan, roedd y tîm arolygu yn cytuno â barnau'r ysgol mewn pump o'r saith cwestiwn allweddol. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr wedi cychwyn y broses o fonitro ansawdd y ddarpariaeth a pharatoi adroddiadau i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr. Nid yw'r adroddiadau yn manylu'n

ddigonol ar safonau cyflawniad y disgyblion nac yn gosod targedau digon penodol ar gyfer gwelliant pellach.

61. Ni wnaethpwyd hunan arfarniad o'r safonau yn y medrau allweddol na safonau dwyieithrwydd y disgyblion. Nid oes sylwadau ar ansawdd yr addysgu yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol.

62. Mae'r CDY yn ddogfen gynllunio effeithiol sy'n nodi'n glir flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r cynlluniau wedi'u costio ac mae'n cynnwys amserlenni a meini prawf llwyddiant.

63. Mae'r ysgol yn gwneud dadansoddiad manwl o ganlyniadau profion disgyblion gan gynnwys unrhyw wahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a merched. Gwneir defnydd effeithiol hefyd o ddata cymharol lleol, sirol a chenedlaethol.

64. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ym mhob un o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

65. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydweddu â'r farn a luniodd yr ysgol yn yr adroddiad hunanarfarnu.

66. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda ar gyfer ei hanghenion. Mae'r athrawon yn meddu ar y cymwysterau priodol a gwneir defnydd da o staff arbenigol sy'n ymweld â'r ysgol i gefnogi rhai meysydd.

67. Mae'r cynorthwywyr yn darparu cynhaliaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion sydd ag AAA, yn ogystal ag i ddisgyblion eraill sydd angen cymorth ychwanegol.

68. Mae gweinyddwyr yr ysgol yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn effeithlon.

69. Mae'r rhaglen hyfforddiant mewn swydd wedi cael ei threfnu'n dda ac mae pob aelod o staff yr ysgol yn cael cyfle i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol a datblygiad proffesiynol unigol.

70. Ers yr arolwg diwethaf, sicrhawyd nifer o welliannau i adeiladau'r ysgol ac erbyn hyn mae adeiladau a thir yr ysgol mewn cyflwr da. Mae'r corff llywodraethol yn cynnal asesiad risg yn rheolaidd ac yn adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau gwelliannau pellach. Mae'r ystafelloedd dosbarth o faint da ac yn briodol ar gyfer y nifer ar y gofrestr gydag arddangosiadau lliwgar o waith y disgyblion ar y waliau. Ceir lle chwarae caeedig diogel y tu allan ar gyfer y plant dan bump ac mae digon o le chwarae ar arwynebedd caled a glaswellt o amgylch yr ysgol i weddill y disgyblion. Caiff yr ysgol ei chadw'n daclus gyda digon o le i storio deunydd a chyfarpar. Nid oes yna neuadd bwrpasol ar gyfer gwasanaethau, cinio nag addysg gorfforol a gwneir defnydd o ystafelloedd dosbarth i'r gweithgareddau hyn.

71. At ei gilydd, mae'r adnoddau sydd ar gael yn ddigonol ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi'r dysgu. Buddsoddwyd yn benodol yn ddiweddar mewn ystod o ddefnyddiau yn arbennig mewn TGCh, mathemateg a'r

Gymraeg. Mae'r defnydd a wneir o'r adnoddau yn y gymuned leol a'r amrywiaeth o ymweliadau addysgol ac ymwelwyr i'r ysgol yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda iawn.

72. Mae'r holl faterion cyllidol yn cael eu trefnu a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r penderfyniadau gwario'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn Pynciau a Meysydd Dysgu

Plant dan bump oed

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant o dan bump oed yn briodol ac yn hyrwyddo'r canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant yn dda. Mae'r safonau, a gyflawnir gan blant y dosbarth derbyn yn dda ar draws y chwe maes dysgu.

Mae'r plant yn elwa o gwricwlwm eang a chytbwys sy'n seiliedig ar egwyddorion addysg y blynyddoedd cynnar fel y nodir yn "Canlyniadau Dymunol ar gyfer Addysg Plant cyn oed Addysg orfodol" [Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru] (ACCAC).

Cymraeg yw cyfrwng y dysgu a chaiff pob plentyn gyfle i ddatblygu sgiliau dwyieithog. Mae plant y dosbarth derbyn yn gwneud cynnydd da mewn iaith. Maent yn gwrando'n dda ar storïau gan fynegi barn yn hyderus. Maent yn gwybod llawer o rigymau Cymraeg ac maent yn eu canu'n swynol.

Mae sgiliau darllen y plant hŷn yn datblygu'n dda; mae unigolion yn cael mwynhad wrth ddarllen. Mae'r plant yn y grŵp iau yn gwneud defnydd da o weithgareddau cyn darllen.

Mae'r plant yn medru rhifo i ddeg a defnyddiant iaith fathemategol sy'n cyfateb i'w hoed a'u gallu. Maent yn medru didoli, cyfateb a threfnu gwrthrychau ac adnabod siapiau syml.

Mae'r bartneriaeth dda sydd rhwng y rhieni a'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad y plant. Cedwir cofnodion rheolaidd wrth fonitro cynnydd pob plentyn o fewn y cwricwlwm. Mae'r athrawes yn y dosbarth derbyn yn monitro cryfderau a gwendidau'r plant gan ddefnyddio'r asesiad i gynllunio rhaglen addysgu i'r dyfodol sydd o fudd i'r plant.

Mae'r amgylchedd dysgu yn drefnus ac yn ysgogi dysgu effeithiol. Rhoddir cyfle i'r plant i ddatblygu'n ddysgwyr gweithredol ac annibynnol. Maent yn gwneud cynnydd da tuag at y canlyniadau dymunol yn eu datblygiad creadigol a chorfforol ac yn eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o'r byd.

Mae'r plant yn cydweithio'n hapus ac yn arddangos hunanreolaeth ddatblygol. Mae'r gynorthwywraig ddosbarth yn cyfoethogi profiadau'r plant yn fawr.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

Cymraeg

Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Yn CA1, mae disgyblion yn gwrando'n dda ar gyflwyniadau'r athrawon a dangosant ddealltwriaeth gynyddol o'r iaith lafar ac ysgrifenedig. Ymatebant yn briodol i gwestiynau sy'n ymwneud â'u profiadau ac mae'r goreuon yn cynnig rhai sylwadau'n ddigymell.

Mae safonau darllen yn dda. Mae disgyblion mwy galluog CA1 yn darllen yn ystyrlon ac yn medru trafod yn syml yr hyn a ddarllenant. Mae'r disgyblion oll yn defnyddio'u sgiliau dad-ddynodi'n effeithiol i ddarllen geiriau anghyfarwydd.

Cyflawna disgyblion CA1 safonau boddhaol yn eu hysgrifennu. Ysgrifennant i wahanol bwrpasau a gall lleiafrif ohonynt yn B2 sillafu ac atalnodi â chryn gywirdeb.

Mae disgyblion CA2 yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu'n dda i drafodaethau dosbarth. Erbyn B5 a B6, datblygant yn eu hyder i fynegi barn ac i gyfrannu i drafodaethau grŵp a dosbarth.

Dengys y mwyafrif o ddisgyblion CA2 agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen a chyflawnant safonau da. Darllenant amrywiaeth o destunau yn ystyrlon a dengys eu hadolygiadau fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn a ddarllenant.

Ysgrifenna disgyblion CA2 mewn amrywiaeth o ffurfiau ar gyfer dibenion a chynulleidfaoedd gwahanol. Defnyddia'r goreuon sillafiadau ac atalnodi cywir gan amlaf ac mae ganddynt afael da ar gystrawennau ac idiomau.

Diffygion

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn CA1 nad ydynt yn siarad gyda hyder a chywirdeb cynyddol a chyfyng yw gallu nifer o ddisgyblion yn CA2 i ymateb ar lafar i destunau sy'n gynyddol gymhleth.

Mae diffygion o ran cynnwys, cywirdeb a mynegiant yng ngwaith ysgrifenedig lleiafrif o ddisgyblion CA1 a CA2.

Saesneg

CA1: Ddim yn berthnasol

CA2: Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

At ei gilydd, mae'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn dda yn y gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r disgyblion yn ymateb i'w tasgau mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Mae disgyblion yn gwrando'n dda ac yn deall amrediad eang o iaith. Ymatebant yn briodol i gyfarwyddiadau a gallant fynegi eu hunain i wahanol ddibenion gyda chywirdeb. Gwrandawant â diddordeb, a chyfrannant yn bwrpasol at drafodaethau dosbarth ac o fewn gweithgareddau grŵp.

Mae'r safonau darllen yn dda ar draws yr ystod gallu a dengys y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Gall y mwyafrif ddarllen ar goedd yn ystyrlon.

Mae'r holl ddisgyblion yn darllen testunau ffeithiol, o ffynonellau wedi'u hargraffu a ffynonellau electronig. Defnyddiant eu sgiliau darllen yn ddeallus o fewn y pynciau megis mewn daearyddiaeth.

Erbyn B5 a B6 mae'r disgyblion wedi datblygu medrau ysgrifennu da. Ysgrifennant yn ddiddorol mewn amrywiaeth o ffurfiau i wahanol bwrpasau. Mae eu gwaith ysgrifenedig yn cynnwys llythyrau ffurfiol, storïau, cerddi a darnau disgrifiadol.

Mae'r disgyblion mwy galluog yn defnyddio nifer o batrymau brawddegau mewn paragraffau cydlynus. Gwnânt ddefnydd cywir o ferfau, ansoddeiriau a chymariaethau.

Gwelir cynnydd yng ngwaith y disgyblion canolig ac is eu gallu o ran cynnwys a chywirdeb y mynegiant. Maent yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn rhoi o'u gorau.

Diffygion

Nid yw ysgrifennu'n glwm wedi datblygu'n dda ymysg nifer arwyddocaol o ddisgyblion.

Mathemateg

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Yn CA1, dengys y disgyblion afael sicr ar brosesau rhif elfennol. Gallant ymgymryd â gwaith cyfrifo syml gyda chywirdeb priodol. Mae eu dealltwriaeth o werth rhif a siâp yn datblygu'n gyson. Mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau "dewch i feddwl" fel dosbarth cyfan ac o waith ymarferol o fewn grwpiau llai.

Mae gwaith cyfrifo ysgrifenedig mwyafrif helaeth y disgyblion yn CA2 yn gywir. Mae yna dystiolaeth o waith ymarferol diddorol sydd yn ymwneud â ffracsiynau. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ffracsiynau cyfwerth a'u perthynas â degolion a chanrannau. Mae'r disgyblion hŷn yn CA2 yn adnabod siapiau dau a thri-dimensiwn yn dda iawn. Siaradant yn hyderus am eu priodweddau.

Ymatebant yn dda i ystod o waith pen, gan ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn B5 a B6 i atgyfnerthu cysyniadau perthnasol. Mae disgyblion CA2 yn gallu adalw ffeithiau lluosi yn dda. Mae'r disgyblion hŷn yn medru cyfrifo gan adio a thynnu i ddau bwynt degol wrth drin rhifau. Gall y disgyblion mwy galluog esbonio'u dulliau cyfrifo yn fanwl.

Mae'r disgyblion yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol i fireinio sgiliau rhif ac i atgyfnerthu cysyniadau ar draws CA1 a CA2. Mae'r mwyafrif yn gweithio yn annibynnol gan ddefnyddio'r cysyniadau mathemategol sydd ganddynt i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd newydd.

Diffygion

Nid yw medrau'r disgyblion yn CA2 wedi'u datblygu'n ddigonol wrth ddatrys problemau, trin data a defnyddio iaith fathemategol.

Gwyddoniaeth

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae disgyblion CA1 yn datblygu eu sgiliau ymchwiliol yn dda. Cydweithiant yn effeithiol mewn grwpiau wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer eu hymchwiliad gwyddonol.

Maent yn mesur yn gywir ac yn cofnodi eu gwaith yn bwrpasol ar ffurf siartiau a diagramau. Deuant i gasgliadau syml ar sail y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt drwy eu hymchwiliad.

Mae gan ddisgyblion B3 a B4 wybodaeth dda am ofynion bwyta'n iâch. Defnyddiant y dystiolaeth a gasglwyd ganddynt yn eu hymchwiliad ar sut i ofalu am y dannedd i dynnu casgliadau clir a phendant.

Medrant enwi prif rannau allanol y corff a gwyddant beth yw swyddogaeth y sgerbwd.

Mae gan ddisgyblion B5 a B6 wybodaeth dda ar draws y rhaglen astudio. Cynlluniant arbrawf gwyddonol yn drefnus i ddarganfod effaith ymarferion corfforol ar guriad y galon. Deuant i gasgliadau rhesymol ar ôl dadansoddi'r canlyniadau. Defnyddiant eirfa wyddonol yn gywir ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amodau prawf teg.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn cyfathrebu eu syniadau gwyddonol yn effeithiol drwy gofnodi a defnyddio siartiau, graffiau a diagramau. Mae ymweliadau yn y maes a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn cael effaith cadarnhaol ar ddysgu a safonau cyflawniad y disgyblion.

Diffygion

Nid yw medrau a dealltwriaeth wyddonol y disgyblion yn cael eu hymestyn yn ddigonol drwy'r defnydd o TGCh mewn gwersi.

Dylunio a thechnoleg

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae'r disgyblion yn elwa o gynllunio manwl sy'n seiliedig ar egwyddorion ac amcanion priodol i faes dylunio a thechnoleg. Maent yn manteisio ar raglen astudio gryno a chynhwysfawr sydd wedi ei chysylltu yn addas â'r gwaith thema ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion yn ymateb i'w tasgau mewn modd sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn adeiladu ar fedrau blaenorol.

Mae enghreifftiau o waith amrywiol o ansawdd da a gynhyrchwyd gan y disgyblion ar draws yr ysgol. Gwna'r disgyblion ystod o wrthrychau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, offer a phrosesau. At ei gilydd, maent yn arfarnu eu gwaith yn foddhaol.

Mae'r disgyblion yn datblygu a gwella gwahanol dechnegau dylunio a thechnoleg drwy fynychu dosbarthiadau hanner dydd yn y Ganolfan Gelf yn Aberystwyth. Adlewyrchir hyn yn ansawdd eu cynhyrchion.

Mae nifer dda o'r disgyblion yn manteisio ar Glwb Creu ar ôl ysgol i gynhyrchu dyluniadau gwreiddiol a gwneud cysylltiadau gyda diwydiant megis coedwigaeth.

Gwnânt gynnyrch o ansawdd da o ystod o ddeunyddiau a chydrannau sy'n bodloni angen clir ac sy'n addas at y pwrpas.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion amlwg.

Technoleg gwybodaeth

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae disgyblion CA1 yn hyderus wrth reoli symudiadau'r 'llygoden' ar y sgrîn. Gyda chymorth athrawon a chynorthwywyr dosbarth, medrant lwytho, dewis rhaglenni, argraffu a chadw eu gwaith.

Erbyn B2, medrant fwydo data syml i lunio graffiau a gwnânt ddefnydd pwrpasol o raglen prosesu geiriau. Maent hefyd yn defnyddio rhaglenni i greu gwahanol siapiau a phatrymau. Byddant yn defnyddio modelau i symud gwrthrychau ar y sgrin er mwyn creu gwahanol batrymau.

Mae disgyblion CA2 yn medru agor a chau eu ffeiliau personol. Gwyddant sut i gadw eu gwaith yn eu ffeiliau. Medrant olygu testun drwy amrywio'r ffontiau a maint y print a thrwy gopïo, torri a gludo. Defnyddiant gronfa ddata syml i storio gwybodaeth, ei gwirio cyn ei bwydo i mewn a chynhyrchu graffiau.

Gwnaiff disgyblion B5 a B6 ddefnydd cynyddol o TGCh i gynhyrchu, addasu, trefnu a chyflwyno syniadau. Gwnânt ddefnydd cynyddol o systemau modelu a rheoli ac o ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Gallant lwytho gwybodaeth i lawr i ffeiliau data a'i dadansoddi a'i dehongli ar ffurf graffiau. Medrant anfon a derbyn e-bost yn hyderus. Deuant o hyd i negeseuon mewn ffolderi a gwyddant sut mae ymgysylltu atodiad i ffeil e-bost.

Diffygion

Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Hanes

Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn gynyddol yn medru adnabod cyfnodau penodol mewn hanes a gallant eu cymharu â'r presennol.

Caiff eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal leol eu datblygu'n dda drwy eu hastudiaethau, ymweliadau yn yr ardal a'r gwahanol ymwelwyr a ddaw i'r ysgol i rannu eu profiadau gyda'r disgyblion ac i ateb eu cwestiynau.

Mae disgyblion CA1 yn datblygu ymwybyddiaeth sylfaenol o gronoleg wrth drafod teganau o wahanol gyfnodau.

Daw disgyblion B3 a B4 o hyd i wybodaeth am fywyd yng nghyfnod Oes Fictoria o amrywiaeth o ffynonellau. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i nodi rhai o'r gwahaniaethau rhwng bywyd ysgol yn y cyfnod hwnnw a'u profiadau nhw eu hunain.

Daw disgyblion B5 a B6 i wybod am amgylchiadau bywyd yng nghyfnod Oes Fictoria drwy eu hastudiaeth o fywyd un teulu yn yr ardal yn y cyfnod hwnnw. Defnyddiant y wybodaeth yn briodol i gofnodi'r gwahaniaethau rhwng amgylchiadau byw teuluoedd yn y cyfnod hwnnw a'r presennol.

Mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wybodaeth dda o rai o ddigwyddiadau a chymeriadau yn hanes Cymru.

Diffygion

Annatblygedig yw sgiliau ymholi hanesyddol y disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol. Cyfyng yw'r ystod o ffynonellau hanesyddol a ddefnyddiant i ymchwilio i dopigau a thestunau.

Annatblygedig yw sgiliau'r disgyblion i drefnu a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth o ffurfiau.

Daearyddiaeth

CA1 Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

CA2 Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae'r disgyblion yn CA1 yn cyrraedd safonau boddhaol gyda rhai agweddau da. Maent yn dysgu rhai sgiliau daearyddol yn llwyddiannus trwy gyfrwng amrywiaeth o themâu megis 'symud', 'adeiladau' a 'phethau byw'.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth o'r ardal leol ac yn medru adnabod ac enwi rhai nodweddion ffisegol a dynol.

Mae disgyblion y ddau gyfnod yn manteisio ar ystod eang o brofiadau allgyrsiol, megis rhaglen Eco heriol ac amrywiol. Yn ddiweddar, enillodd yr ysgol Dystysgrif Aur y Faner Werdd am ei gwaith mewn perthynas â gwarchod yr amgylchedd i'r dyfodol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae disgyblion CA2 yn elwa o gynlluniau gwaith manwl a chynhwysfawr. Mae tystiolaeth o waith da yn B6 lle mae'r disgyblion wedi astudio ardal Aberystwyth a Chonwy gan ddisgrifio'r tirlun, yr anheddiad, y gwaith a'r adeiladau.

Mae sgiliau daearyddol disgyblion CA2 yn cael eu datblygu'n effeithiol mewn gwaith maes a gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o wledydd sydd yn datblygu'n economaidd, fel Botswana.

Diffygion

Annatblygedig yw sgiliau ymchwilio daearyddol disgyblion CA1 a'u gallu i ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys ffynonellau eilaidd a TGCh i ddod o hyd i wybodaeth a'i chyflwyno mewn dulliau amrywiol.

Celf

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Yn CA1, mae'r disgyblion yn cael profiadau da o weithio mewn amrywiaeth o gyfryngau megis paentio, lluniadu, gwaith collage ac argraffu. Gallant ddefnyddio ystod dda o ddeunyddiau, offer a phrosesau yn effeithiol. Mae eu rheolaeth dros nifer o dechnegau yn datblygu'n dda wrth iddynt ddarlunio a phaentio o arsylwadau ac o'r cof.

Yn CA2, gwna'r disgyblion ystod o wrthrychau a delweddau dau ddimensiwn, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau, offer a phrosesau. Mae'r disgyblion yn arbrofi'n hyderus gydag effeithiau gweledol, fel llinell, tôn, lliw, patrwm a gwead.

Mae disgyblion CA2 yn ymwybodol o waith arlunwyr enwog ac mae amryw o arlunwyr lleol wedi ymweld â'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion. Gallant efelychu arddulliau gwahanol trwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau.

Mae'r disgyblion yn manteisio ar ymweliadau cyson i'r Ganolfan Gelf yn Aberystwyth. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn nifer o weithdai gan gynnwys printio â sgrin, ffotograffiaeth a chrochenwaith. Mae'r profiadau yma yn cyfoethogi eu datblygiad creadigol. Mae eu gwaith o ansawdd da.

Ceir enghreifftiau o waith collage lliwgar wedi eu harddangos a cheir gwaith argraffu da a thynnu llun o'r cof. Gall y disgyblion drafod gwahanol arddulliau celf yn hyderus a dangosant falchder yn eu gwaith.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion amlwg.

Cerddoriaeth

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Ar y cyfan mae safonau, canu, perfformiadau offerynnol, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth drwy gydol CA1 a CA2 yn dda.

Mae mwyafrif disgyblion CA1 yn arddangos gallu a chywirdeb, sy'n briodol i'w datblygiad. Maent yn perfformio'n hyderus, gyda mynegiant a sensitifrwydd, Ar brydiau, mae'r disgyblion yn dangos arddull a naws achlysur.

Mae'r disgyblion yn adnabod ansawdd a dynameg sain. Maent yn cadw curiad yn dda ac yn gwrando'n dda ar eraill yn perfformio.

Mae disgyblion CA1 a CA2 yn archwilio ystod o ffynonellau sain ac yn dethol, cyfuno a threfnu synau yn effeithiol. Maent yn greadigol yn eu cyfansoddiadau ac yn perfformio gyda mynegiant cerddorol. Mae'r disgyblion yn gwerthuso eu cerddoriaeth eu hunain a cherddoriaeth eraill yn dreiddgar.

Mae'r gweithgareddau yn y gwersi cerdd yn rhoi cyfleoedd da i ddatblygu sgiliau cymdeithasol megis dilyn cyfarwyddiadau arweinydd o fewn grŵp. Ymatebant yn dda.

Mae'r disgyblion yn manteisio o gael hyfforddiant sawl athro teithiol sy'n dod i'r ysgol i addysgu gwahanol offerynnau megis offerynnau chwyth, y fiolín a'r gitâr. Maent hefyd yn elwa o ymweld â Chanolfan y Celfyddydau lle cynhelir gweithdai cerdd. Cyflawnant safonau da.

Ceir ymateb cadarnhaol i berfformiadau cyhoeddus y disgyblion ac mae nifer o'r disgyblion wedi cyfrannu i Gôr a Cherddorfa Ceredigion.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

Addysg gorfforol

Gradd 3 : Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nodweddion da

Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod sydd ar gael ar gyfer ymarferion cynhesu. Gwyddant fod ymarfer corff yn bwysig i'w lles a'u hiechyd a'r effaith y gall ei gael ar eu cyrff.

At ei gilydd, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n briodol ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac maent yn mwynhau'r profiadau a dderbyniant.

Mae mwyafrif disgyblion CA1 yn ymateb yn dda wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n datblygu eu sgiliau taflu, dal, neidio a glanio.

Mae disgyblion CA2 yn datblygu ac yn atgyfnerthu eu sgiliau'n gynyddol i ddangos rheolaeth ar basio a dal pêl. Gweithiant mewn parau a grwpiau er mwyn meithrin ymhellach eu gallu i drafod pêl. Ymunant mewn gêm gystadleuol gyda brwdfrydedd.

Ceir tystiolaeth bod medrau'r disgyblion yn cael eu gwella drwy iddynt gael cyfle i gymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Diffygion

Cyfyng yw gallu'r disgyblion i werthuso eu perfformiadau eu hunain ac eraill ac i gynnig awgrymiadau ar gyfer gwella.

At ei gilydd, nid yw medrau'r disgyblion a'u rheolaeth dros eu cyrff wedi eu datblygu'n ddigonol i gyflawni gofynion y tasgau sy'n cyfateb i'w hoed a'u gallu.

Addysg grefyddol

Gradd 2 : Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

Mae gan ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol wybodaeth dda o straeon y Beibl. Medrant adalw'r storïau a'u hailadrodd yn eu geiriau eu hunain.

Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gwersi sy'n gysylltiedig â'r damhegion a llwyddant i'w cymhwyso i'w hamgylchiadau eu hunain.

Ysgrifennant weddïau didwyll a meddylgar; mae'r disgyblion hŷn yn adrodd gweddïau'n ddifyfyr.

Drwy eu hymweliadau â'r eglwys, dengys disgyblion CA1 eu bod yn gyfarwydd â'r prif ardaloedd megis y porth, yr allor a'r bedyddfaen.

Gall disgyblion B3 a B4 berthnasu'n dda rai o'r rheolau crefyddol i'w bywydau beunyddiol eu hunain. Cofnodant eu gwaith yn effeithiol mewn amryw o ffurfiau.

Datblyga disgyblion B5 a B6 y wybodaeth a'r medrau sy'n eu galluogi i ystyried arferion byw a dulliau o addoli ymysg pobl mewn gwledydd eraill megis yn yr India.

Diffygion

At ei gilydd, mae diffyg dyfnder yn nealltwriaeth y disgyblion o grefyddau'r byd heblaw am Gristnogaeth.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Croesawyd yr adroddiad gan yr ysgol ac rydym wedi dechrau meddwl am ffyrdd o weithio ar yr argymhellion yn barod.

Rydym yn gwerthfawrogi fod yr arolygwyr wedi nodi gwelliant yn y dysgu ac addysgu, safonau'r ysgol ym mhob maes ac enwedig yn y Gymraeg ac yn parhau i wella.

Nodwyd fod angen gwella'r defnydd o'r medrau allweddol o fewn y cynlluniau tymor byr a fydd hwn yn flaenoriaeth yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

Rydym yn gwerthfawrogi fod yr arolygwyr wedi nodi holl waith caled staff yr ysgol a byddwn yn parhau i weithio er mwyn cynnal a chodi safonau yn yr ysgol.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gymunedol Llanilar
Math o ysgol	Cymuned
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Llanilar Aberystwyth Ceredigion
Cod post	SY23 4PA
Rhif ffôn	01974 241334

Pennaeth	Mr Michael Carruthers
Dyddiad penodi	Ebrill 2002
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Rowland Jones
Arolygydd Cofrestredig	Mr D Gwynfor Evans
Dyddiadau'r arolygiad	4-6 Hydref 2004

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	0	8	12	10	14	10	16	9	79

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	4	1	4.2

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	20.7
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	22
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.05

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad				
Tymor	**D**	**CA1**	**CA2**	**Ysgol Gyfan**
Hydref 2003	91.5	98.7	95.3	95.05
Gwanwyn 2004	94.9	95.4	94.9	95.09
Haf 2004	87.3	95.9	92.2	93.77

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	0
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1:

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B2				13	
Canran y disgyblion ar bob lefel								
			D	W	1	2	3	4
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	8	31	46	15	0
		Cenedlaethol	1	2	11	64	23	0
Cymraeg: llafaredd	Asesiad Athro	Ysgol	0	7	31	54	8	0
		Cenedlaethol	1	2	12	63	22	0
Cymraeg: darllen	Asesiad Athro	Ysgol	0	8	31	38	23	0
		Cenedlaethol	1	3	17	59	22	0
Cymraeg: ysgrifennu	Asesiad Athro	Ysgol	0	8	31	46	15	0
		Cenedlaethol	1	3	20	65	11	0
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	3	8	2	0
		Cenedlaethol	0	2	11	63	24	0
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	23	69	8	0
		Cenedlaethol	0	2	10	66	22	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	62	Yng Nghymru	79

D Disgyblion sydd wedi'u datgymhwyso o'r trefniadau statudol
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Diwedd Cyfnod Allweddol 2:

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B6								10	
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	56	44	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	6	16	45	31	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	44	56	0
		Cenedlaethol	1	1	2	0	0	6	14	41	33	0
Cymraeg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	22	0	33	44	0
		Cenedlaethol	1	0	0	1	0	4	18	51	25	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	22	33	45	0
		Cenedlaethol	1	2	0	0	0	3	19	51	21	0
Mathemateg	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	11	67	22	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	4	19	46	30	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	78	22	0
		Cenedlaethol	0	2	1	0	0	4	18	41	34	0
Gwyddoniaeth	Asesiad athro	Ysgol	0	0	0	0	0	0	0	78	22	0
		Cenedlaethol	0	0	0	0	0	2	13	49	35	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	0	0	0	11	67	22	0
		Cenedlaethol	1	2	0	0	0	1	10	48	39	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiaith)			
yn ôl Asesiad Athro		**yn ôl Prawf**	
Yn yr ysgol	90	Yn yr ysgol	89
Yng Nghymru	71	Yng Nghymru	71

D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Arolygwyd yr ysgol gan dîm o dri arolygydd dros gyfnod o dri diwrnod.
- Y pennaeth oedd yr enwebai.
- Arolygwyd 38 o wersi neu rannau o wersi, yn ogystal â detholiad o waith ymarferol ac ysgrifenedig y disgyblion.
- Gwelwyd gweithgareddau cofrestru, addoli ar y cyd a gweithgareddau allgyrsiol.
- Mynychwyd cyfarfodydd o'r Cyngor Ysgol a Phwyllgor Eco yr ysgol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r staff a'r disgyblion ynghylch eu gwaith.
- Dadansoddwyd yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol.
- Mynychodd 19 o rieni y cyfarfod cyn-arolygiad a dadansoddwyd 44 o holiaduron a gwblhawyd ganddynt.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolygiad gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod Tîm	Cyfrifoldebau	Cyfrifoldebau
Mr D G Evans AC	Cyd-destun Crynodeb ac argymhellion Cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7	Cymraeg gwyddoniaeth technoleg gwybodaeth hanes addysg gorfforol addysg grefyddol
Mrs N Williams Tîm	Cwestiynau allweddol 2,3 a 4	Saesneg mathemateg dylunio a thechnoleg daearyddiaeth celf cerddoriaeth plant dan bump
Mrs J Davies Lleyg	Cyfraniadau i gwestiynau 1,3,4 a 7	

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H
Tŷ Britannic
Ffordd Britannic
Llandarsi
Castell Nedd
SA10 6JQ

Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

Ysgol Gynradd Llanilar
Llanilar
Aberystwyth

gan

Mr D Gwynfor Evans
W005/15682

Adroddiad Cryno i Rieni

Rhif yr Ysgol: 667-2311

Dyddiad yr Arolygiad: 4-6 Hydref 2004

Arolygwyd Ysgol Gynradd Llanilar fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr Adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Llanilar rhwng 4-6 Hydref 2004. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o dri o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr D Gwynfor Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gymunedol Llanilar
Math o ysgol	Cymuned
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Llanilar Aberystwyth Ceredigion
Cod post	SY23 4PA
Rhif ffôn	01974 241334

Pennaeth	Mr Michael Carruthers
Dyddiad penodi	Ebrill 2002
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Rowland Jones
Arolygydd Cofrestredig	Mr D Gwynfor Evans
Dyddiadau'r arolygiad	4-6 Hydref 2004

℗ Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad cryno hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Cyd-destun

Natur y darparwr

Lleolir Ysgol Gynradd Llanilar yn y pentref ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal amaethyddol o amgylch. Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Nid oes gan un disgybl yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sydd yn sylweddol is na chyfartaledd yr awdurdod addysg lleol (AALl) (11 y cant) a chyfartaledd Cymru (19 y cant).

Ar hyn o bryd, mae 79 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng pedair ac 11 oed. Adeg yr arolwg diwethaf yn 1999, 59 oedd nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae bron pob plentyn wedi derbyn addysg gyn-ysgol. Mae gan ryw 25 y cant anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys dau sydd â datganiad o AAA.

Cymraeg yw prif iaith yr ysgol ac er mai dim ond 22 y cant o'r disgyblion ddaw o gartrefi Cymraeg, dywed yr ysgol fod 95 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Caiff disgyblion sydd yn cyrraedd yr ysgol heb wybodaeth o'r Gymraeg gyfle i fynychu canolfan iaith er mwyn ennill meistrolaeth o'r iaith yn gyflym.

Mae'r ysgol yn anelu at "ddarparu cymuned gefnogol o fewn amgylchedd hapus, ble y caiff pob un ei ysgogi a'i herio i gyflawni ei botensial". Cred hefyd fod "y pwyslais a rydd ar ansawdd a safonau uchel, mewn gwaith ac ymddygiad, yn darparu eu plant gydag agwedd bositif tuag at fywyd a sylfaen gadarn y gellir seilio eu dysg arni yn y dyfodol".

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Yng nghynllun datblygu'r ysgol (CDY) ar gyfer 2004-2005, rhestrir y blaenoriaethau canlynol:

- Creu safwe i'r ysgol;
- Datblygu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth;
- Datblygu gweithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion;
- Edrych ar gyflwr adeilad yr ysgol;
- Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump;
- Asesu'r pynciau sylfaen; ac
- Ennill cymhwyster 'Buddsoddwr mewn Pobl'.

Prif Ganfyddiadau

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol		Gradd yr arolygiad
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	3
3	Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	3
7	Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

Pynciau a Meysydd Dysgu y Blynyddoedd Cynnar

Iaith, llythrennedd a chyfathrebu	2
Datblygiad personol a chymdeithasol	2
Datblygiad mathemategol	2
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd	2
Datblygiad creadigol	2
Datblygiad corfforol	2

Pwnc	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Cymraeg	Gradd 3	Gradd 3
Saesneg	Amherthnasol	Gradd 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 3	Gradd 3
Daearyddiaeth	Gradd 3	Gradd 2
Celf	Gradd 2	Gradd 2
Cerddoriaeth	Gradd 2	Gradd 2
Addysg gorfforol	Gradd 3	Gradd 3
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

- Cyflawna'r disgyblion o bob oed radd 2 mewn gwrando a darllen. Gwrandawant yn gyson ac ymatebant yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau. Darllenant yn gywir gyda mynegiant. Mae safonau siarad ac ysgrifennu'n dda yn Saesneg yn CA2 ac yn radd 3 yn y ddau gyfnod allweddol yn y Gymraeg.

- Cyflawna'r dysgwyr radd 2 mewn rhifedd. Gwnânt ddefnydd da o'u medrau rhifedd i fesur a chyfrif yn gywir wrth wneud gwaith mewn amrywiaeth o bynciau.
- Er bod y disgyblion yn gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu dysgu, amrywiol yw'r safonau ac anwastad yw'r defnydd a wneir o adnoddau TGCh ar draws y dosbarthiadau. Gradd 3 yw'r safonau.
- Mae safonau dwyieithrwydd y disgyblion wedi gwella ers yr arolwg diwethaf. Mae'r disgyblion yn dod yn fwy hyderus i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith ac mae lleiafrif yn arddangos medrau ieithyddol deuol effeithiol. Yn gyffredinol, mae sgiliau cyfathrebu'r disgyblion yn fwy cadarn yn y Saesneg nag yn y Gymraeg a gradd 3 yw safonau dwyieithrwydd yn yr ysgol.
- O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 1 (CA1) yn y dangosydd pwnc craidd yn is na'r cyfartaledd, ond yn Nghyfnod Allweddol 2 (CA2) mae lawer yn uwch na'r cyfartaledd. Nid oes gwahaniaethau mawr ym mherfformiad bechgyn a merched yn y pynciau craidd yn y ddau gyfnod allweddol.
- Mae agweddau disgyblion at ddysgu, y diddordeb a ddangosant yn eu gwaith a'u gallu i ganolbwyntio yn dda. Ar y cyfan, gweithiant yn ddiwyd ar eu tasgau ac mae ganddynt falchder yn y modd y cyflwynant eu gwaith. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymryd digon o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain drwy weithio'n annibynnol a dod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau.
- Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda, yn gryfder yn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Mae'r disgyblion yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'w gilydd, i'r staff ac i ymwelwyr â'r ysgol ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r staff. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddisgwyliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

- Yn y gwersi yr arsylwyd arnynt, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
0%	73%	27%	0%	0%

- Mae canran y gwersi da yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn welliant ers yr arolygiad diwethaf.
- Lle mae'r addysgu'n gyson yn cyrraedd gradd 2, mae'r cynllunio'n dda ac amcanion dysgu clir yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Mae'r holi da yn annog disgyblion i feddwl ac ystyried cyn cynnig atebion. Lle mae diffygion, mae'r cyflwyniadau yn rhy faith ac ni roddir digon o gyfleoedd i'r disgyblion weithio'n annibynnol a dod i gasgliadau a chanfyddiadau drwy waith ymchwil personol.
- Mae cynllunio'r athrawon yn y tymor canolig a'r tymor byr yn fanwl ac yn gynhwysfawr. Ceir cynllunio priodol ar gyfer y plant dan bump ar draws y chwe maes dysgu. Gradd 3 yw datblygiad medrau allweddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm gan gynnwys eu medrau dwyieithog. Nid oes polisi ysgol-gyfan i sicrhau ymagwedd gyson ac nid yw'r medrau'n cael eu cynnwys yng nghynllunio tymor byr yr athrawon.

- Yn gyffredinol, gwneir defnydd priodol o asesu i hysbysu'r cynllunio ac adnabod yr hyn sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Yn y pynciau craidd, defnyddir y wybodaeth i hyrwyddo safonau uwch ond nid oes cynllun cyffelyb ar gyfer asesu cynnydd a chyflawniad disgyblion yn y pynciau sylfaen. Mae hyn yn flaenoriaeth yn y CDY. Dechreuwyd ar y gwaith o lunio portffolios pynciol. Maent yn cynnwys enghreifftiau o waith wedi'i lefelu ond prin yw'r enghreifftiau o sylwadau dadansoddol ac arweiniad ar y ffordd ymlaen.
- Mae'r ysgol yn sicrhau bod y disgyblion yn cael mynediad cyfartal i gwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar yn dda. Mae ansawdd da y polisïau a chynlluniau gwaith i bob pwnc yn y tymor hir, canolig, a byr yn sicrhau cydbwysedd, hyblygrwydd a dilyniant ar draws y cwricwlwm.
- Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda drwy'r amrywiaeth o brofiadau dysgu a gynigir i'r disgyblion. Mae cydaddoli yn cyfrannu'n dda i ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Mae profiadau'r dysgwyr yn cael eu hehangu a'u cyfoethogi trwy gyfrwng ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn ystod yr awr ginio a thu allan i oriau arferol, ac oddi ar y safle.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn dda. Mae'r disgyblion sydd angen cymorth yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r athrawon a'r staff cynhaliaeth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i sicrhau cynhaliaeth barhaus. Sicrheir bod y disgyblion sydd ag AAA yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd yr ysgol.
- Mae'r cysylltiadau â rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn effeithiol. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd i fywyd a gwaith yr ysgol.
- Mae'r partneriaethau â diwydiant lleol wedi galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth well o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy. Mae'r ysgol wedi derbyn y fflag werdd fel Ysgol Eco ac mae gweithredu mewn ffordd gynaliadwy yn dod yn naturiol i'r disgyblion.
- Mae gan yr ysgol bolisïau ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant ac fe'u gweithredir yn effeithiol. Cynhelir asesiadau risg yn rheolaidd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd clir sydd yn hysbys i'r disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Mae'r pennaeth wedi cyflwyno nifer o flaengareddau pwysig ers ei benodiad yn Ebrill 2002; mae'n cynnig arweiniad da iawn i'r ysgol.
- Mae arferion yr ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal a cheir perthynas dda ac awyrgylch o gydweithio hapus ar draws yr ysgol.
- Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am anghenion yr ysgol ac mae'r aelodau'n ymroddedig i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i bob disgybl. Cyfrannant yn effeithiol at osod cyfeiriad strategol i'r ysgol yn arbennig mewn materion ariannol ac adeiladol.
- Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gryno ac yn glir. Mae'n nodi cryfderau a meysydd lle mae angen gwelliannau. Mae'r pennaeth a'r cydlynwyr wedi cychwyn y broses o fonitro ansawdd y ddarpariaeth a pharatoi adroddiadau i'w cyflwyno i'r llywodraethwyr. Nid yw'r sylwadau yn manylu'n ddigonol ar yr addysgu a safonau

cyflawniad y disgyblion nac yn gosod targedau digon penodol ar gyfer gwelliant pellach.

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ym mhob un o'r materion allweddol a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.
- Mae'r ddarpariaeth gyffredinol o ran staffio, adeiladau ac adnoddau yn dda. Mae'r disgyblion yn cael eu cynnal gan staff cymwys ac ymroddedig sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol. Ers yr arolwg diwethaf, sicrhawyd nifer o welliannau i adeiladau'r ysgol ac erbyn hyn, mae adeiladau a thir yr ysgol mewn cyflwr da.
- Rheolir holl adnoddau'r ysgol yn effeithlon. Mae'r penderfyniadau gwario'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol. At ei gilydd, mae'r ysgol yn sicrhau gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1. roi sylw i'r diffygion a nodir yn y pynciau a'r meysydd dysgu yn arbennig lle nodir mai gradd 3 yw safonau cyflawniad y disgyblion;

A2. ddatblygu ymhellach system asesu'r ysgol drwy :
- gael dulliau effeithiol o asesu cyflawniad y disgyblion yn y pynciau sylfaen,
- hybu dealltwriaeth y disgyblion o'u cryfderau a'u gwendidau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella;

A3. gynllunio'n fwy manwl ar gyfer hyrwyddo medrau allweddol y dysgwyr gan gynnwys eu medrau dwyieithog;

A4. gryfhau'r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy fanylu ar ansawdd yr addysgu a safonau cyflawniad y disgyblion ar draws y pynciau.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.